Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid
Principal Youth Officers' Group

# **Grwp Prif Swyddogion Ieuenctid:** Sylwadau Estyn am Wasanaeth Ieuenctid Cymru, 2004-2012

**Medi 2012**

ASSOCIATION OF DIRECTORS OF EDUCATION IN WALES
CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR ADDYSG CYMRU

WLGA • CLILC

**Cyhoeddwyd:** Medi 2012

**Hawlfraint:** Grwp Prif Swyddogion Ieuenctid

**ISBN:** 978-1-906423-91-9

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (PYOG) wedi paratoi'r papur hwn i ledaenu themâu arferion da yn bennaf, fel y bydd modd gwella ansawdd gwaith ieuenctid a chyflwyno tystiolaeth bod safonau'r gwaith hwnnw wedi bod yn uchel yn ystod y cyfnod dan sylw (8 mlynedd).

Mae rôl Estyn ynglŷn â Gwasanaeth Ieuenctid Cymru wedi newid dros y degawd diwethaf. Ar un adeg, roedd y gwasanaeth yn destun arolygu trylwyr. Ar ôl i'r drefn honno ddod i ben, byddai arolygwyr yn rhoi adborth amdano yn rhan o'r golwg ehangach ar wasanaethau cynorthwyo'r ifainc. Erbyn hyn, fodd bynnag, yn ôl y trefniadau presennol ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc, does dim gofyn i roi adborth penodol amdano.

Er mai arolygu ansawdd a safonau yw prif rôl Estyn, mae'n ymwneud â lledaenu arferion da, hefyd.

Mae llai o sylw ar Wasanaeth Ieuenctid Cymru bellach ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiadau am fod llai o sylwadau amdano. Mae PYOG yn parhau i ledaenu arferion da trwy fforwm cenedlaethol ei gyfarfodydd ac, i raddau cynyddol, ar lefel ranbarthol. Rydyn ni'n cyfnerthu hynny trwy gydweithio drwy'r amser â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru mewn gorchwylion megis llunio ffordd o bennu proffil y gweithlu (ar brawf mewn 4 cyngor ar hyn o bryd) a phroses dadansoddi data y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi bob blwyddyn ynglŷn â Gwasanaeth Ieuenctid Cymru. Y bwriad yw y bydd y broses honno'n ffordd arall o wella gwasanaethau.

## Summary of comments

Dyma rai o'r themâu a sylwadau calonogol sydd yn adroddiadau'r arolygwyr:

- Gwaith gyda'r ysgolion a phartneriaid eraill (yn arbennig cyrff iechyd); sylwadau am rôl gwaith ieuenctid ynglŷn â chwtogi ar nifer y disgyblion sydd wedi'u gwahardd rhag mynychu'r ysgol a rhoi cymorth a chyfarwyddyd am nifer o faterion megis iechyd rhywiol, camddefnyddio cyffuriau a rhianta ymhlith y glasoed.
- Defnyddio gwybodaeth a data i ddibenion rheoli yn ehangach ac yn well.
- Rôl Gwasanaeth Ieuenctid Cymru ynglŷn â chynnig hyfforddiant da i weithwyr ieuenctid a staff gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc.
- Canran y bobl ifanc sy'n ymwneud â Gwasanaeth Ieuenctid Cymru ym mhob ardal.
- Amrywiaeth y cyfleoedd achredu sydd heb fod yn ffurfiol.
- Gwybodaeth, cynghorion a chyfarwyddyd.
- Addysg trwy gyfoedion.
- Cynnig addysg amgen.
- Defnyddio ffora ieuenctid, a'u heffaith.
- Cynorthwyo mudiadau gwirfoddol.

Dyma enghreifftiau o sylwadau eraill:

- Cydnabod bod diffyg gallu ac adnoddau mewn rhai ardaloedd.
- Dylai'r gwasanaeth gynnig rhagor o arweiniad strategol (fel y dywedodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau yn ddiweddar)
- Dibynnu ar ariannu allanol i gynnal gwasanaethau craidd

| 2004 | | |
|---|---|---|
| **Hydref** | **Rhondda Cynon Taf** | **p10:** Mae'r gwasanaethau yn y gyfarwyddiaeth yn cydweithio'n effeithiol. Er enghraifft, mae gwaith y gwasanaeth ieuenctid yn gwneud cyfraniad sylweddol at gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol, yn ogystal â meithrin cyfraniad sylweddol gan bobl ifanc mewn ystod eang o weithgareddau yn y gymuned. |
| **Hydref** | **Tor-faen** | **p5:** Mae nifer o'r adeiladau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn wael. Yn aml iawn, nid yw lleoliadau amlbwrpas yn addas ar gyfer anghenion pobl ifanc. Ceir siopau gwybodaeth a mannau gwybodaeth da, sydd o fewn cyrraedd. Cynigia gwefan fywiog wybodaeth gynhwysfawr ar gyfer yr holl bobl ifanc yn y fwrdeistref sirol.<br>**p8:** Mae pobl ifanc yn cyflawni'n dda trwy Ddyfarniad y Maer. Mae'r fenter hon, a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Ieuenctid, yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac maent yn cael cydnabyddiaeth gyhoeddus ar gyfer eu llwyddiant. Yn y Gwasanaeth Ieuenctid, symudodd nifer o bobl ifanc ymlaen trwy hyfforddiant gwaith ieuenctid aelodau uwch, i ddod yn weithwyr neu'n gynorthwywyr mewn clybiau ieuenctid.<br>**p9:** Mae pobl ifanc eraill yn symud ymlaen i lwybrau dysgu ffurfiol ac maent wedi cael achrediad y Rhwydwaith Coleg Agored trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau Gwasanaethau Ieuenctid.<br>**p12:** Ni chaiff rai o weithgareddau'r canolfannau ieuenctid eu cynllunio'n dda, ac mae staff yn rhy aml yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol. Yn yr achosion hyn, mae lefel gwerthuso'r gweithgareddau yn rhy isel i gynnig digon o wybodaeth i annog gwelliant.<br>**p13:** Mewn rhai lleoliadau clybiau ieuenctid, anelir gweithgareddau at ddynion ifanc neu fe'u dominyddir ganddynt. Mae hwn yn llwyddiannus wrth ymrwymo dynion ifanc, a mynychir y clybiau hyn yn dda gan ddynion yn eu harddegau hwyr ac ugeiniau cynnar. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn herio materion rhyw yn gyson. Mewn un ymweliad, roedd dynion ifanc yn gweithio tuag at RhCA a oedd yn cynnwys ceir tra roedd merched ifanc yn dilyn RhCA mewn gwarchod plant<br>**p14:** Defnyddiodd y bwrdd iechyd lleol ddata ansawdd uchel mewn partneriaeth sefydledig gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid i dargedu rhaglen o weithgareddau i wella iechyd rhywiol pobl ifanc.<br>**p16:** Datblygodd y Gwasanaeth Ieuenctid wefan fywiog ac apelgar …<br>**p18:** Ceir mynediad eang i'r cynllun Cerdyn C yn benodol ar draws nifer o ganolfannau ieuenctid a phrosiectau allymestyn.<br>**p21:** Nid oes gan y Gwasanaeth Ieuenctid ddigon o staff i gyflwyno gwasanaethau'n ddwyieithog, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau a gyflwynir mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg.<br>**p22:** Nid oes gan y staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc, gan gynnwys gweithwyr ieuenctid ar wahân ac allymestyn, bob amser amgylchedd diogel i weithio ynddo. Nid oes protocolau cytûn ar gyfer gweithio ar sail ar wahân ac allymestyn a cheir diffyg ffocws ar anghenion iechyd a diogelwch ar gyfer y staff sy'n cyflwyno'r gwasanaethau hyn. |

| 2004 | | |
|---|---|---|
| **Tach-Rhag** | **Sir Gâr** | **p11:** O'u hystyried yn gyffredinol, mae'r ystod dda o gyfleoedd sydd ar gael drwy'r Bartneriaeth Pobl Ifanc, gan gynnwys cysylltiadau gwaith ieuenctid mewn ysgolion a'r cwricwlwm ehangach, yn cyfrannu'n dda at bresenoldeb, cyfraddau cadw a chyflawniad pobl ifanc mewn dysgu. (t.11)<br>Mae gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno cyrsiau y mae mawr eu hangen i bobl ifanc ddigartref a'r rheiny heb gefnogaeth gan eu teuluoedd, er mwyn rhoi hwb i'w hyder ac archwilio targedau at y dyfodol.<br><br>**p13:** Mae gweithwyr ieuenctid yn yr ysgol yn cynnig elfen bwysig o ddysgu a chymorth ar gyfer pobl ifanc, ac mae ysgolion yn awyddus i'r ddarpariaeth hon ehangu.<br><br>**p14:** Mewn canolfannau ieuenctid, ceir enghreifftiau da o gysylltiadau cymunedol sy'n llywio datblygiad gweithgareddau prosiect lleol i fod o fudd i bobl ifanc, y gymuned leol a chefnogi mentrau adfywio.<br><br>**p15:** Mewn canolfannau ieuenctid, ceir enghreifftiau da o gysylltiadau cymunedol sy'n llywio datblygiad gweithgareddau prosiect lleol i fod o fudd i bobl ifanc, y gymuned leol a chefnogi mentrau adfywio<br><br>**p15:** Mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, defnyddir nawdd ar y cyd yn dda mewn canolfannau ieuenctid i gynnig cwricwlwm sy'n bodloni anghenion unigolion a'r gymuned, gan gynnwys gwaith traws genhedlaeth.<br><br>**p16:** Mae canolfannau ieuenctid yn cynnig taflenni gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer pobl ifanc, ond nid yw ystod y rhai sydd ar gael yn adlewyrchu eu hanghenion yn ddigonol.<br><br>**p17:** Mae gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion a cholegau yn gweithio'n arbennig o dda gyda gwasanaethau allymestyn i ddarparu cymorth parhaus ac integredig i bobl ifanc sydd wedi colli diddordeb.<br><br>**p22:** Mae'r gofynion ar y gwasanaeth ieuenctid yn golygu bod gan y rhan fwyaf o weithwyr lwythi gwaith trwm. Yn aml, caiff rheolwyr eu dargyfeirio o'u rôl rheoli, gan ymgymryd â chyflwyno uniongyrchol ar draul gweithgareddau goruchwylio.<br><br>tT22. Mae'r gwaith ychwanegol hwn yn cuddio diffyg adnoddau o ran lefelau staffio yn y gwasanaeth ieuenctid.<br><br>**p22:** Mae polisi datblygu staff y gwasanaeth ieuenctid wedi cefnogi nifer dda o weithwyr ieuenctid amser llawn, gweithwyr rhan-amser a gweithwyr y sector gwirfoddol i ennill cymwysterau gwerthfawr yn lleol. |

| 2005 | | |
|---|---|---|
| **Maw** | **Sir Fynwy** | "Through…specialist youth service projects young people in Monmouthshire gain a wide range of skills and experiences (p. 8)<br><br>The youth workers also work well with parents and provide a positive link between the school and the parents. (P.11)<br><br>The Youth Service holds an annual Awards night to celebrate the achievements of young people who use the rich variety of activities offered. Too often, however workers are missing opportunities to accredit young people for the activities that they have undertaken, or are not offering young people opportunities to gain accreditation at Level 2 or above (P.11)<br><br>Staff in part time youth centres regularly invite specialist workers from inside and outside the Youth Service, to enrich the curriculum that they offer to young people (P.12)<br><br>There are examples of workers in the Youth Service providing high quality, accredited work experience placements within their own service area (p. 12)<br><br>The Youth Service recognises the need to provide activities bilingually and through the medium of Welsh and has made links with the Urdd to develop this aspect of its work. However, despite the option for youth workers to gain Open College Network credits in Welsh through courses sponsored by the County Council, youth workers are not using this to improve young people's entitlement to a service in a language of their own choice (P.13)<br><br>The Youth Service, in partnership with the Youth Offending Team delivers a parenting group. This group has been successful in supporting adult carers of teenagers to explore effective parenting skills. The Eye-to-Eye counselling project run by the Youth Service fills an identified need for easily accessible counselling services for young people (P.14)<br><br>The Youth Service Basic Skills project works well with young people on a one to one basis to develop their basic skills. This project is effective in fully involving young people in developing a negotiated individual learning plan (P.15)<br><br>The youth service delivers an effective parenting programme. (P.17)<br><br>The youth Service administers local cluster groups of youth support service providers, which discussed issues highlighted by the (Youth Service) audit (p. 23) |

| 2005 | | |
|---|---|---|
| **Mai** | **Powys** | Mae'r rhan fwyaf o weithwyr ieuenctid a staff eraill sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid yn datblygu perthynas gefnogol gyda phobl ifanc ar sail cyfeillgarwch ac ymddiriedaeth. Mae gweithwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau mewn sesiynau unigol sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc yn briodol ac maent yn ymateb yn dda i wahanol anghenion pobl ifanc yn ôl y gofyn. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn helpu pobl ifanc i adnabod eu cyflawniadau eu hunain a threfnu digwyddiadau i ddathlu llwyddiant. (t.5)<br><br>Mae gweithwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer gweithgareddau arbenigol, ond mewn lleoliadau gwaith ieuenctid anffurfiol, ceir amrywiad diangen yn ansawdd y cynllunio ar gyfer sesiynau ac mewn arfarniadau ôl-sesiwn. (t.14)<br><br>Mewn rhai achosion lle mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio mewn ysgolion, nid yw staff yr ysgol a'r gweithwyr ieuenctid yn cyd-gynllunio i drosglwyddo asesiadau medrau sylfaenol ac allweddol neu i gytuno ar safonau ymddygiad derbyniol. (t.15)<br><br>Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cynnal arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid rheolaidd. (t.17)<br><br>Mae gan sawl (partner) systemau arfarnu effeithiol a sefydlog. (t.23)<br><br>Mae gan y gwasanaeth ieuenctid yn benodol raglen hyfforddiant a datblygiad dda ac mae'n rhannu ei hyfforddiant gydag asiantaethau eraill fel iechyd a gyrfaoedd. (t.25) |

| 2006 | | |
|---|---|---|
| **Ion** | **Blaenau Gwent** | Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod lleol yn rhagweithiol iawn yn cynnig hyfforddiant mynediad agored, am ddim mewn gwaith ieuenctid… ac mae gweithwyr partneriaid fel yr heddlu, gofal iechyd, addysgu, gwaith cymunedol, gwaith chwarae ac aelodau etholedig hefyd yn cael mynediad at yr hyfforddiant hwn. (t.26) |
| **Maw** | **Sir Fflint** | Datblygwyd cyfundrefnau ansawdd llawer o sefydliadau partner, fel y Gwasanaeth Ieuenctid... yn dda. (t.19) |
| **Mai** | **Sir Ddinbych** | Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn ddarparwr gweithgareddau mawr ar gyfer y Bartneriaeth Pobl Ifanc (t.11)<br><br>Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ymateb yn dda i agendâu cenedlaethol ac mae'n dilyn egwyddorion Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru (t.11)<br><br>Trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid, mae gan bobl ifanc gysylltiadau â Draig Ffynci a gwnânt gysylltiadau cryf â phobl ifanc eraill ledled Cymru (t.12)<br><br>Mae gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol rôl ganolog yn y Bartneriaeth sy'n adlewyrchu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Partneriaethau Pobl Ifanc (t.17)<br><br>Mae staff yn y gwasanaeth ieuenctid yn defnyddio ystod eang o systemau i'w helpu i gynllunio a monitro'u gwaith. (t.20) |
| **Tach** | **Ceredigion** | Mae diffyg cyllid y Gwasanaeth Ieuenctid statudol yn cyfyngu gallu'r awdurdod lleol i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc trwy'r Bartneriaeth Pobl Ifanc. (t.3)<br><br>...mae staff yn y gwasanaeth ieuenctid wedi gweithio'n ymarferol gydag ysgolion i wneud yn siŵr bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn gwybod am eu hawliau. (t.9)<br><br>Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid statudol, fodd bynnag, yn gyfyngedig.  Mae hyn yn arwain at lefelau cyfranogiad isel yn y gwasanaeth. (t.10)<br><br>...mae gallu Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion i gyfrannu at waith y Bartneriaeth a chyflwyno gwasanaethau cymorth ieuenctid yn gyfyngedig ac yn annigonol. (t.15) |

| 2006 | | |
|---|---|---|
| **Tach** | **Cas-newydd** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arwain ymyriadau effeithiol yn y gymuned mewn ardaloedd difreintiedig. (t. 13)<br><br>Mae partneriaethau effeithiol yn galluogi darparwyr i gyflwyno cwricwlwm eang. Enghraifft o'r gwaith hwn yw'r gwasanaeth ieuenctid a thîm Anghydraddoldeb mewn Iechyd y Bwrdd Iechyd Lleol. (t.14)<br><br>Mae hyfforddiant wedi'i dargedu yn galluogi'r Gwasanaeth Ieuenctid i ehangu ei gwricwlwm trwy ddarparu mwy o fedrau ac adnoddau ar gyfer staff. (t.14)<br><br>Mae gan rai sefydliadau, fel y Gwasanaeth Ieuenctid, brosesau defnyddiol ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaethau, cael adborth gan bobl ifanc ac ysgogi gwelliannau i wasanaethau. Mae gan brosiectau eraill, fel y Siop Wybodaeth, y prosiect Gofalwyr Ifanc a'r Fenter Datblygu Dysgu ymagweddau effeithiol at fonitro, olrhain ac arfarnu cynnydd pobl ifanc. (t.26)<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid raglen dda o hyfforddiant a datblygiad personol. (t. 28)<br><br>Mae yna bartneriaeth dda iawn rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r YMCA, sy'n arwain at enghreifftiau da o bartneriaid yn cydgyfrannu ac yn rhannu adnoddau ac arbenigedd. (t. 29)<br><br>Mae gan y gwasanaeth ieuenctid uned symudol dda iawn ar gyfer mynd ag adnodday y celfyddydau gweledol, chwaraeon a gwybodaeth allan i bobl ifanc. (t.27) |

| 2007 | | |
|---|---|---|
| **Ion** | **Caerffili** | The local authority youth service makes a valuable contribution to the work of the framework (p. 4)<br><br>The leadership shown by the Youth Service fulfils well the role required of it by the Welsh Assembly Government. (p. 4)<br><br>The local authority youth service provides much of this (accreditation) good work through its own direct provision and through good partnership working with other youth support services (p. 12)<br><br>The Youth Service has good arrangements in place which helps these (disabled) young people get involved in community recreational provision (p. 15)<br><br>The youth service is a key member of the framework. It makes an important contribution to the work of the partnerships and LPTG's (p. 17)<br><br>In particular, the Youth Service is responsible for delivering high quality training for workers from all youth support services and piloting effective quality assurance procedures for later sharing with partners. The youth Service is also leading the development of joint projects in response to the YPP's priorities and annual action plan. (p. 17) |
| **Maw** | **Caerdydd** | Yn y gwasanaeth ieuenctid, caiff staff fynediad da at hyfforddiant ar ddiogelu plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. (t.13)<br><br>Mae'r bartneriaeth dda rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Hamdden yn golygu bod pobl ifanc yn gallu defnyddio campfeydd, neuaddau chwaraeon a stiwdios dawns yn rheolaidd. (t.18) |
| **Mai** | **Merthyr** | Mae sefydliadau'r gymuned leol a gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn cyd-weithio'n dda yn aml... wedi cynyddu nifer y clybiau ieuenctid galw heibio ac wedi cynyddu nifer y timau gwaith ieuenctid stryd i ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl ifanc. (t.9)<br><br>Mae'r rhaglen hyfforddiant (ar gyfer staff gwasanaethau cynorthwyo'r ifainc) yn cael ei llywio'n dda gan ddadansoddiad o anghenion hyfforddi sy'n cael ei arwain gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol (t.16) |

| 2008 | | |
|---|---|---|
| **Jan** | **Bro Morgan-nwg** | Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach a sefydliadau sector gwirfoddol i ddatblygu ymatebion hyblyg i weithio gyda phobl ifanc sy'n cyfarfod gyda'i gilydd ar y strydoedd neu mewn lleoedd cyhoeddus. Mae gwaith ieuenctid ar y stryd yn helpu sicrhau bod pobl ifanc yn aros yn ddiogel ac mae'n helpu lleihau anhrefn cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. (t.10)<br><br>ma …mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'r tîm medrau sylfaenol, Gyrfa Cymru, a Weston Spirit i helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer byd gwaith. (t.11)<br><br>…mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wedi cymryd yr awenau i ddatblygu strategaeth hyfforddiant dda ar gyfer y PPI. O ganlyniad, caiff holl staff y gwasanaeth cymorth gyfleoedd i fynychu ystod dda o hyfforddiant achrededig. (t.17)<br><br>Yn benodol, mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn hyfforddi disgyblion sy'n siarad Cymraeg i fod yn weithwyr ieuenctid dwyieithog y dyfodol. (t.17) |
| **Maw** | **Gwynedd** | Mae gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig cefnogaeth dda i bobl ifanc mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid. (t.13)<br><br>Mae enghreifftiau da o bartneriaid yn rhannu hyfforddiant staff; er enghraifft, mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn cyflwyno digwyddiadau hyfforddi penodol i'w staff ei hun, i'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, i'r adrannau adfywio a hamdden ac i Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin. (t.18) |
| **Ebr** | **Ceredigion** | Providers, particularly the Youth Service, provide good accredited opportunities for young people and ensured consistent standards in delivery. (p. 4)<br><br>The Youth Service produced an informative staff handbook on behalf of the YPP. Youth organisations use this effective tool for planning, monitoring and evaluating work. The Youth Service, as lead agency, has monitored the use of the handbook and used the analysis well to plan further activities including a relevant range of training opportunities for staff". (P. 4)<br><br>The Youth Service is leading the work to fill some of the gaps, such as the provision for young people in the main market towns of the county. The Youth Service also coordinates supports and challenges un-regulated providers of youth services across the county." (P. 5) |

| 2008 | | |
|---|---|---|
| **Ebr** | **Ceredigion** | The Youth Service has responded very well to the challenge of working more effectively to lead its partners within youth support services. The council has facilitated a £20, 000 increases in funding for the service. Despite this, the Youth Service remains under-resourced and is the lowest funded service in Wales per head of 11-25 year olds. (P. 8) |
| **Meh** | **Castell-nedd Port Talbot** | Gosododd yr adolygiad strategol diwedd o wasanaethau ieuenctid yng Nghastell-nedd Port Talbot, a'i gynllun gweithredu manwl, nodau uchelgeisiol a thargedau lefel uchel. Fodd bynnag, nid yw gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn arwain datblygiadau ar draws y bartneriaeth yn effeithiol. (t.5)<br><br>Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn enwedig wedi cael incwm sylweddol (£752,730) uwchlaw ei gyllideb graidd gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, 53% yn unig o'r cyllid y mae Cynulliad Cymru yn ei roi ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid sy'n cael ei drosglwyddo gan yr awdurdod lleol (t.5)<br><br>Mewn llawer o glybiau ieuenctid, mae pobl ifanc yn dysgu am y modd y gallant gyfrannu at eu cymunedau lleol. Maent yn helpu i godi arian ar gyfer eu clybiau ac ar gyfer elusennau lleol. Er enghraifft, yn y Cymer, gwnaeth bobl ifanc gynhyrchu a threfnu cyngerdd, gan godi £300 at elusennau. (t.7)<br><br>Mae rhai pobl ifanc sy'n aelodau o glybiau ieuenctid yn symud ymlaen i hyfforddiant arweinyddiaeth (sy'n cael ei alw'n hyfforddiant uwch aelodau). Mae dau o'r uwch aelodau hyn bellach yn cynnal eu clwb ieuenctid rhan-amser eu hunain. (t.8)<br><br>Mae'r tîm gwaith ieuenctid allanol yn cynllunio ei weithgareddau a'i brosiectau'n dda. Mae gweithwyr yn diffinio canlyniadau dysgu clir ac yn bodloni gwahanol anghenion a galluoedd y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw yn dda (t.9)<br><br>Maent hefyd yn cydweithio'n dda â gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol, i ddarparu cyfleoedd i'r bobl ifanc hyn helpu gyda gweithgareddau cymunedol. (t.11)<br><br>Mae'r gwasanaeth Negeseuon Testun (SMS) a lansiwyd yn ddiweddar gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol, yn darparu gwybodaeth werthfawr am ystod eang o faterion yn uniongyrchol i ffonau symudol pobl ifanc. Fodd bynnag, mae nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gymharol isel ac nid yw'r gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog. (t.14) |

| 2008 | | |
|---|---|---|
| **Meh** | **Castell-nedd Port Talbot** | Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol mewn sefyllfa dda i arwain ar ddatblygiadau pwysig ar draws y partneriaethau. Fodd bynnag, nid yw rôl y gwasanaeth ieuenctid yn y trefniadau partneriaeth yn ddigon effeithiol. Nid yw'r awdurdod lleol yn manteisio i'r eithaf ar gryfderau niferus ei wasanaeth ieuenctid i ddarparu arweinyddiaeth dda a symud targedau a datblygiadau allweddol y bartneriaeth yn eu blaen. Mae'r rhain yn cynnwys adnabod anghenion medrau sylfaenol pobl ifanc yn gynnar, datblygu dulliau o gydnabod y 'pellter a deithiwyd' gan unigolyn ifanc ac achredu canlyniadau dysgu dysgwyr mewn lleoliadau addysg anffurfiol. (t.16)<br><br>Yn ogystal, nid yw'r adolygiad yn nodi'r rôl arwain y gall gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol ei chymryd ar ran y PPaPhI yn glir. (t.16)<br><br>Mae gan staff gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol gymwysterau da iawn. Cyfran y staff sydd â chymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel 3 neu'n uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) yw 97%... (t.17)<br><br>Mae gan weithwyr o'r holl wasanaethau cymorth ieuenctid fynediad da at raglenni hyfforddiant a ddarperir gan bartneriaid allweddol fel gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr iechyd a'r sector gwirfoddol. Mae'r rhaglenni hyn ar gael i'r holl staff ar draws y bartneriaeth. (t.17)<br><br>Yn gyffredinol, mae gan bobl ifanc fynediad da at adeiladau a chyfleusterau priodol trwy adeiladau pwrpasol y gwasanaeth ieuenctid, cyd-ddefnydd o gyfleusterau ysgol a neuaddau cymunedol. Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei holl adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005. Mae ganddo strategaeth ar waith i sicrhau bod yr holl adeiladau yn bodloni safon addas. Mewn ymateb i argymhellion sy'n codi o'r Adolygiad o Wasanaethau Ieuenctid, mae'r cyngor wedi sicrhau bod £400,000 ar gael yn ystod y ddwy flynedd nesaf i uwchraddio ei adeiladau ei hun a rhai y mae'n eu rhannu. (t.18)<br><br>Yn 2006-200717 cyflawnodd gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol incwm sylweddol (£753,000) y tu hwnt i'w gyllideb graidd gan yr awdurdod lleol. Mae pum deg chwech y cant o gyllideb gweithredu gros gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn dod o incwm ychwanegol, o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 37%. Mae hwn yn gyflawniad pwysig gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, cyllideb graidd gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol yw'r lleiaf ond dwy yng Nghymru. Yn ei setliad ariannol blynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae pob awdurdod lleol yn cael elfen enwol ar gyfer gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, y swm hwn y £1.1m. Fodd bynnag, £592,000 (53%) yn unig o'r swm hwn a ddefnyddir i ariannu'r gwasanaeth ieuenctid. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth ieuenctid yn orddibynnol ar gyllid allanol i roi ei wasanaethau craidd. (t.18) |

| 2008 | | |
|---|---|---|
| **Hyd** | **Sir Benfro** | Mae'r arweinyddiaeth y mae'r awdurdod lleol yn dangos o fewn y PPPhI yn rhagorol. Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod ei wasanaeth ieuenctid (Pobl Ifanc Sir Benfro) wedi gwreiddio'n gadarn yng nghynllunio a rheoli strategol gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol (GAALl). Mae hyn yn sicrhau bod Pobl Ifanc Sir Benfro dan reolaeth yr un systemau rheoli perfformiad llym, gan gynnwys casglu a dadansoddi data, â gweddill ei ddarpariaeth. (t.14) |
| **Tach** | **Wrecsam** | …mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol hefyd wedi mapio darpariaeth leol y gwasanaeth ieuenctid yn unol â materion lleol sy'n effeithio ar bobl ifanc. (t.16)<br><br>Mae llawer o bartneriaid o wasanaethau gwirfoddol a statudol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflwyno gwasanaethau ar y cyd ar gyfer pobl ifanc. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn arwain llawer o'r prosiectau partneriaeth hyn yn effeithiol, fel gweithgareddau adloniant ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. (t.16)<br><br>Mae'r gwasanaeth ieuenctid, y bwrdd iechyd lleol, cynghorau cymuned a gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau bod digon o weithwyr i gyflwyno prosiectau pwysig. Mae hyn wedi arwain at roi gweithwyr mewn lleoliadau sy'n golygu bod gweithwyr yn cael mynediad da at bobl ifanc. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys ysbytai, canolfannau cymunedol, ysgolion a'r coleg. (t.31)<br><br>Mae llawer o bobl ifanc yn y rhaglenni Gwaith Ieuenctid mewn Addysg yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da iawn, yn enwedig Teithwyr ifanc. (t.10)<br><br>Mae'r holl staff Gwaith Ieuenctid mewn Addysg yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial, yn enwedig y rheiny na wnaethant gyflawni eu potensial o'r blaen. (t.13)<br><br>Mae'r prosiect Gwaith Ieuenctid yn yr Ysbyty, sef Inspire, yn rhoi cymorth rhagorol i bobl ifanc yr aethpwyd â nhw i'r ysbyty o ganlyniad i hunan-niwed. Yn ychwanegol, mae grŵp cymorth cyfoedion Isis yn rhoi cymorth ardderchog ar gyfer pobl ifanc sy'n lesbiaid, yn hoyw, yn ddeurywiol ac yn drawsrywiol a phobl ifanc sy'n cwestiynu eu rhywioldeb. (t.20)<br><br>…mae gwaith y prosiect Gwaith Ieuenctid mewn Addysg, Boost, yn dangos bod cymorth ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn dechrau cael effaith. (t.21)<br><br>Mae gweithwyr ieuenctid mewn naw ysgol hefyd. Mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr. (t.23) |

| 2008 | | |
|---|---|---|
| **Tach** | **Conwy** | At ei gilydd, mae gweithwyr ieuenctid yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc ac yn darparu ystod dda o weithgareddau, dulliau addysgu ac adnoddau dysgu. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r gweithgareddau'n cael eu rheoli'n dda. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i gyflawni nodau unigol a chyfunol. Mae bron yr holl staff yn ymateb yn effeithiol i bobl ifanc sydd ag anawsterau personol, ac maent yn diwallu'u hanghenion yn dda. Maent yn herio iaith wahaniaethol ac iaith sarhaus yn gyson, ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad. Mae'r staff hefyd yn annog pobl ifanc yn effeithiol i ddysgu am ddiwylliannau eraill… (t.3)<br><br>At ei gilydd, mae gweithwyr ieuenctid yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda phobl ifanc. Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu staff i gynhyrchu gwaith o ansawdd da. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn cynyddu'u medrau a'u hyder ac yn datblygu diddordebau newydd. (t 9)<br><br>Mae bron pob un o'r gweithwyr ieuenctid yn cynllunio'u gwaith yn dda, ac mae ganddynt amcanion clir. (t.9)<br><br>…mae cynllunio parhaus i recriwtio staff dwyieithog o gymunedau lleol i weithio mewn clybiau ieuenctid yr awdurdod lleol. (t.15) |
| **Tach** | **Sir Fynwy** | Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda iawn gydag ysgolion a phartneriaid eraill i ddarparu pecynnau dysgu amgen ar gyfer disgyblion sy'n cael anhawster yn dilyn y cwricwlwm mewn ysgolion. (t.19) |

| 2009 | | |
|---|---|---|
| **Ion** | **Sir Fflint** | Dim cyfeiriad penodol at wasanaeth ieuenctid. |
| **Ion** | **Caerffili** | Dim cyfeiriad penodol at wasanaeth ieuenctid. |
| **Chw** | **Abertawe** | Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n amrywio o hyfforddiant uwch aelodau i radd mewn gwaith ieuenctid a chymunedol. (t.16) |
| **Maw** | **Sir Ddinbych** | Nid yw adeiladau'r gwasanaeth ieuenctid wedi bod yn flaenoriaeth a gwnaed unrhyw waith adnewyddu i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a diogelwch yn bennaf. Nid yw datblygu asedau bro wedi bod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod hanes o gwblhau prosiectau adeiladu yn brydlon ac o fewn y gyllideb. (t.25)<br><br>Mae fforymau ieuenctid gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn helpu pobl ifanc i fod yn fwy ymwybodol o faterion cymunedol ac i gyfrannu at ddatblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.(t.34)<br><br>...nid yw cynllun gweithredu medrau sylfaenol gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wedi symud ymlaen. (t.34) |
| **Mai** | **Carmarthen shire** | Mae'r bartneriaeth mynediad ieuenctid, sy'n cynnwys gweithwyr ieuenctid, addysg bellach, y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill, yn darparu ystod dda o ddarpariaeth addysg amgen yng nghyfnod allweddol 4 i bobl ifanc sydd wedi'u gwahardd neu sy'n mewn perygl o gael eu gwahardd. (t.13) |
| **Meh** | **Swansea** | Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn darparu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n amrywio o hyfforddiant uwch aelodau i radd mewn gwaith ieuenctid a chymunedol. (t.16) |
| **Gor** | **Ceredigion** | Dim cyfeiriad penodol at wasanaeth ieuenctid. |

| 2009 | | |
|---|---|---|
| **Medi** | **Wrecsam** | Caiff aelodau etholedig fynediad gwell at ystod o dystiolaeth ansoddol wrth nodi blaenoriaethau i ddatblygu gwasanaethau cymorth ieuenctid yr awdurdod lleol fel y gwasanaeth ieuenctid. (t.6)<br><br>Mae'r awdurdod lleol, trwy ymgynghori â gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill, wedi adolygu ac ailstrwythuro ei wasanaeth ieuenctid yn drylwyr. Trwy'r gwaith hwn a rheoli gwybodaeth yn well, mae gan y gwasanaeth ieuenctid strategaeth gliriach ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae'r strategaeth hon yn dechrau llywio buddsoddi cyfalaf ac mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus wrth gael cyllid ar gyfer ailwampio ac addasiadau DGSA i adeiladau allweddol. (t.7)<br><br>Mae gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi gweithio'n dda yn cefnogi ysgolion i leihau gwaharddiadau cyfnod penodol trwy integreiddio a chyfarwyddyd gwell gan weithwyr ieuenctid mewn ysgolion. (t.7) |
| **Hyd** | **Merthyr** | Dim cyfeiriad penodol at wasanaeth ieuenctid. |
| **Tach** | **Ynys Mon** | Mae nifer dda o bobl ifanc yn mynychu clybiau ieuenctid mynediad agored sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol ac mae wedi dyblu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae gan y rhan fwyaf o bobl ifanc berthynas gadarnhaol, gefnogol a pharchus gyda'u cyfoedion a'r staff. (t.6)<br><br>Mae gweithwyr ieuenctid yn trefnu bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod dda o gyfleoedd chwaraeon, hamdden, diwylliannol a gwirfoddoli. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn gwneud defnydd da o ystod eang o arddulliau gweithio i gefnogi dysgu pobl ifanc. Mae gweithwyr ieuenctid mewn canolfannau ieuenctid rhan-amser yn gwahodd gweithwyr arbenigol o'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r tu allan yn rheolaidd, i gyfoethogi'r cwricwlwm y maent yn ei gynnig i bobl ifanc. (t.8)<br><br>Mae llawer o weithwyr ieuenctid yn defnyddio eu gwybodaeth a'u medrau arbenigol da i ddarparu ystod o weithgareddau yn eu gwaith gyda phobl ifanc. (t.8)<br><br>Mae gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno ASDAN a Dyfarniadau Cyflawniad Ieuenctid i ddarparu cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol i ystod o bobl ifanc. Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd yn defnyddio cynllun Cofnod Cyflawniad a Gwobr Dug Caeredin. (t.10)<br><br>Ceir arweinyddiaeth a rheolaeth well dros wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Mae aelodau etholedig allweddol wedi gweithio'n dda gyda swyddogion i bennu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, ond nid yw'r weledigaeth hon yn cael ei chefnogi eto gan strategaeth ystyrlon i |

| 2009 | | |
|---|---|---|
| **Tach** | **Ynys Mon** | Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn dioddef yn sgil diffyg cynhwysedd rheoli ar nifer o lefelau. Mae cyfuniad o salwch, oedi o ran recriwtio staff a recriwtio staff amhrofiadol yn cyfyngu gallu'r gwasanaeth i gyflawni gwelliannau. O ganlyniad, ni chaiff gwerthusiadau staff eu cynnal yn systematig yn y gwasanaeth ac nid yw'r Polisi ar Hyfforddi a Datblygu Staff a luniwyd yn ddiweddar wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol. (t.14)<br><br>Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cadw cofnodion cywir a chyfoes o wiriadau'r SCT ac yn sicrhau bod pob un o'r staff newydd yn cael eu gwirio'n addas. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw adnewyddiadau bob tair blynedd wedi cael eu cwblhau, ac mewn nifer fach iawn o achosion, mae staff yn dechrau gweithio o dan oruchwyliaeth cyn derbyn eu gwiriad SCT cyflawn. (t.14)<br><br>Mae Cynllun Rheoli Asedau manwl yn galluogi'r gwasanaeth ieuenctid i gynnal adolygiadau rheolaidd o'r asedau y gall fanteisio arnynt a chyflwr yr adeiladau y mae'n eu defnyddio. (t.14)<br><br>Ac eithrio'r nifer fach o Labordai Digidol sydd ar gael, nid yw adnoddau TGCh ar gael digon trwy glybiau ieuenctid yr awdurdod lleol. (t.15) |

| 2009 | | |
|---|---|---|
| **Tach** | **Gwynedd** | Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wedi cydweithio'n dda ag aelodau etholedig i fapio ei ddarpariaeth bresennol ac i edrych ar arfer dda mewn mannau eraill i lywio ei waith. Hefyd, mae wedi rhoi strwythurau addas ar waith i gynllunio ei waith yn fwy effeithiol ac i arfarnu deilliannau. Fodd bynnag, o ganlyniad i ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn rhannol, nid yw'r gwasanaeth ieuenctid wedi cwblhau gwaith hyd yma i greu strategaeth ddatblygu a system gwybodaeth reoli well. (t.18)<br><br>Mae ffocws da ar hyfforddi gweithwyr ieuenctid i godi ymwybyddiaeth o'r cyfle i achredu gwaith pobl ifanc. (t.20)<br><br>Mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol wedi darparu ystod o hyfforddiant i staff i'w helpu i baratoi rhaglenni mwy heriol ac amrywiol. Mae targedau a blaenoriaethau clybiau ieuenctid unigol ar gyfer 2009-10 yn dangos ffocws gwell ar waith, fel iechyd rhyw neu iechyd meddwl neu ymwybyddiaeth o alcohol a chyffuriau. Mae'r ddarpariaeth TG |
| **Rhag** | **Caerffili** | Dim cyfeiriad penodol at wasanaeth ieuenctid. |

| 2010 | | |
|---|---|---|
| **Ion** | **RCT** | Maent (pobl ifanc) yn cyfrannu'n dda at benderfyniadau'r Awdurdod sy'n effeithio ar eu bywyd ysgol a'u gweithgareddau yn y gymuned ehangach. Mae plant a phobl ifanc yn elwa ar ystod dda o fentrau amlasiantaethol a mentrau yn yr ysgol sy'n helpu iddynt deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. (t.4)<br><br>Mae plant a phobl ifanc yn cael cymorth da i ddatblygu a chynnal ffyrdd iach o fyw. Yn gyffredinol, maent yn mwynhau lefelau uchel o weithgareddau corfforol gweithredol ac maent yn hyderus i wneud dewisiadau iach a gwybodus am ddiet, maeth ac ymarfer corff. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut gallant aros yn iach trwy'r hyn maent yn ei fwyta a thrwy weithgarwch corfforol. (t.4)<br><br>Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod yn canolbwyntio'n dda ar ddarpariaeth i ddiwallu anghenion a fynegwyd gan bobl ifanc. Gwneir defnydd amlwg o broffilio a dadansoddi cymunedol, sy'n arwain at weithio amlasiantaethol, sy'n fwyfwy ymatebol. (t.7)<br><br>The Mae'r ystod eang o gyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli, cael achrediad, ymgymryd â hyfforddiant a chael cymorth personol, gwybodaeth, cyngor a chwnsela mewn ysgolion, lleoliadau AB ac yn y gymuned yn dda. (t.7)<br><br>Mae'r gweithio gwell mewn partneriaeth gydag ystod eang o randdeiliaid yn cynyddu ystod a hygyrchedd y gwasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc. Mae ffocws yr awdurdod ar gynllunio lleol wedi cynyddu cyfleoedd pobl ifanc i gymryd rhan mewn ystod ehangach o'r rhain. Mae hyn yn cynnwys yr arfer dda a gyflwynir trwy ysgolion bro. (t.7) |
| **Maw** | **Pen-y-bont ar Ogwr** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gwneud hyn yn dda ac mae'n enghraifft dda o ddefnyddio dull strategol wrth ystyried blaenoriaeth, helaethrwydd a digonolrwydd y gwasanaethau yn erbyn anghenion a nodwyd. (t. 9)<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhoi gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid da iawn mewn sawl lleoliad. Maent yn gwneud yn siŵr bod y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn gwybod am eu hawliadau ac yn eu derbyn. Mae safonau da yn eu lle i sicrhau bod y wybodaeth y maent yn ei rhoi yn ddiduedd. (t. 11) |

| 2010 | | |
|---|---|---|
| **Maw** | **Pen-y-bont ar Ogwr** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cydweithio'n dda â'r bwrdd iechyd lleol i roi gwasanaethau gwybodaeth o safon dda iawn am iechyd rhyw. Mae'r gwasanaethau ar gael yn rhwydd a gweithwyr ieuenctid sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig sy'n gweithio iddynt. Mae gweithwyr ieuenctid yn rhoi cyngor priodol am iechyd rhyw i bobl ifanc. (t.11)<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rhoi cymorth da a diymdroi yn y gymuned a'r ysgol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad. (t.12)<br><br>Mae gweithwyr ieuenctid yn anogwyr dysgu effeithiol ac maent yn cynorthwyo grwpiau amrywiol o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol nad ydynt yn cyflawni'n dda yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cyffuriau, sydd â ffobia am fynd i'r ysgol, yn ogystal â rhieni yn eu harddegau. (t.12)<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ychwanegu gwerth da at waith y gwasanaeth cynnwys ac mae'n defnyddio ei amgylchedd cefnogol yn dda i fynd i'r afael â materion ymddwyn. (t.12)<br><br>…mae'r gwasanaeth ieuenctid yn defnyddio data yn dda i flaenoriaethu'n glir ac i gynllunio'n effeithiol. Mae wedi cynnal dadansoddiad da o'r data a'r ddarpariaeth i nodi pa elfennau o'r gwasanaeth y mae angen eu gwella. Mae wedi datblygu systemau da iawn sy'n galluogi staff i fonitro presenoldeb pobl ifanc mewn digwyddiadau a darpariaeth. (t.14) |
| **Maw** | **Bro Morgannwg** | Yn y ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid mae presenoldeb yn cymharu'n dda ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes digon o bobl ifanc yn ymgymryd â dysgu sy'n arwain at ddeilliannau achrededig mewn |
| **Tach** | **Catell-nedd Port Talbot** | Mewn rhai ardaloedd, nid oes gan bobl ifanc fynediad da at glybiau ieuenctid. (t.6)<br><br>In 2009, the number of young people attending youth support services provision (including the local authority youth service) is very good at 41% of the population (11-25). (t.6)<br><br>Mae'r gwasanaeth ieuenctid a gynhelir wedi cynyddu ystod y cyfleoedd i bobl ifanc gael achrediad am eu gwaith. (t.9)<br><br>Mae rhywfaint o anghysondeb o ran cynllunio, monitro ac arfarnu gwaith gwasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, mae system gwybodaeth reoli ddefnyddiol ar waith yn y gwasanaeth ieuenctid statudol erbyn hyn i fynd i'r afael â hyn. (t.11) |
| **Tach** | **Wrexham** | Oherwydd bod y gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n dda gyda phartneriaid fel y gwasanaeth iechyd, mae pobl ifanc yn yr ysbyty yn ymgysylltu'n effeithiol â gweithwyr prosiect. Mae'r bobl ifanc hyn yn llai tebygol o niweidio'u hunain neu gael eu hailanfon i'r ysbyty o ganlyniad i brosiect |

| 2011 | | |
|---|---|---|
| **Ion** | **Caerdydd** | Mae gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod ystod eang o brosiectau a gweithgareddau sy'n bodloni anghenion pobl ifanc yn dda. Mae menter Cadw mewn Cysylltiad yn rhoi dadansoddiadau defnyddiol o ddysgwyr sy'n cael cymorth. Mae'r Strategaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid newydd yn darparu ffocws gwell ar gyfer cefnogi pobl ifanc NACH. (t.8) |
| **Chw** | **Powys** | Mae nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaeth ieuenctid awdurdod lleol Powys yn dda, sef 25% o'r boblogaeth ieuenctid. (t.5)<br><br>Mae presenoldeb mewn clybiau ieuenctid eisoes yn dda ac yn tyfu, ac fe gaiff dysgwyr gyfle da i fanteisio ar ddysgu anffurfiol sy'n arwain at achrediad. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud cynnydd da o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. (t.8) |
| **Mar** | **Conwy** | Mae nifer y bobl ifanc sy'n mynychu gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn dda, sef 23% o'r boblogaeth, Mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â rhaglenni sy'n hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw. Mae arfarniadau disgyblion a rhieni, monitro gwasanaethau ac adroddiadau ysgolion yn awgrymu bod disgyblion yn ymgysylltu'n fwy â mentrau iechyd a lles sy'n hyrwyddo bwyta'n iach, ymarfer corff, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol. Hefyd, mae pobl ifanc yn datblygu mwy o hunan-barch a medrau cyfathrebu trwy'r rolau addysg a chynorthwyo cyfoedion sy'n cael eu cynnig gan y rhaglenni hyn. (t. 5)<br><br>Mae nifer y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yn lleihau. Mae mwy o bobl ifanc yn llwyddo i osgoi troseddu oherwydd ymyrraeth gynnar effeithiol gan y tîm troseddau ieuenctid a gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. (t.5) |
| **May** | **Blaenau Gwent** | Yn 2009, 12% yn unig o'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig â gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol gafodd ganlyniad achrededig. Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru, sef 16%. (t.6)<br><br>Yn 2009, mae nifer y bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid (yn cynnwys gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol) yn dda iawn, sef 41% o'r boblogaeth (11-25). (t.6)<br><br>The local authority youth service's managers are improving their use of management information system to target youth support services work. However, it still has some way to go before data is used to best effect. |

| 2011 | | |
|---|---|---|
| **Meh** | **Sir Fflint** | Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, yn gwneud cyfraniad sylweddol at y rhaglen gymorth i ddysgwyr y nodwyd eu bod mewn perygl o fod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. (t.10) |
| **Meh** | **Sir Benfro** | Dim cyfeiriad penodol at wasanaeth ieuenctid. |
| **hyd** | **Tor-faen** | Fodd bynnag, nid yw swyddogion gwasanaethau ieuenctid yn gwybod a yw plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddefnyddio ystod addas o wasanaethau cymorth ieuenctid priodol. Ailstrwythurwyd y gwasanaeth ieuenctid ryw bum wythnos cyn yr arolygiad hwn, felly mae'n rhy gynnar i farnu'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at wasanaethau cymorth ieuenctid Torfaen. |
| **Tach** | **Casnewydd** | Young people have increased their participation in sport and community-based learning by getting more involved with the local authority's youth service, libraries and arts and sports development programmes, including Positive Futures. (P.5) |

| 2012 | | |
|---|---|---|
| **Ion/ Chw** | **Sir Ddinbych** | **p6:** Most learners engaged with the Youth Service make steady progress and gain appropriate non-formal qualifications across a range of areas. The local authority Youth Service has realigned its priorities and resources effectively to provide better services, opportunities, personal support and outcomes for learners.<br><br>**p9:** The service and its partners have a leading role in the development of youth support services across the authority.<br><br>**p10:** The authority's youth service is leading work with relevant partners based in local areas to improve access to a range of youth support services. |
| **Maw** | **Sir Gar** | **p4:** In addition, a good percentage of learners gain accreditation or informal recognition for their participation in the Youth Service and wider youth support services.<br><br>**p5:** Nearly all learners involved with the Youth Health Team, social and emotional literacy development programmes and the school based counselling service report a positive impact on their lives and make considerable gains in confidence and in personal and emotional awareness. These learners respond well to bespoke interventions and demonstrate improvements in attitudes, behaviour, and educational attainment.<br><br>**p5:** Young people benefit from participation in a range of youth services and the percentage of learners achieving recognition for their work is above the Wales average. |